# PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 2021

**YN BRESENNOL:** Elin Walker Jones (Cadeirydd)
Olaf Cai Larsen (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Beca Brown, Alwyn Gruffydd, Judith Mary Humphreys a Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg). Ffion Bryn Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Eitem 5: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).
Eitem 7: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).
Eitem 9: Meirion MacIntyre Huws (Swyddog Gwarchod Enwau Lleoedd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr Elwyn Jones, Kevin M Jones, John Pughe Roberts ac Eirwyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Mehefin 2021 fel rhai cywir yn amodol ar ychwanegu ym mhwynt 11.2 bod aelod wedi mynegi siom nad yw'r ysgolion yn medru cynnal y Canolfannau Iaith.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Amlygwyd her o allu staff rheng flaen i ymateb i'r arolwg staff hunanasesiad iaith Gymraeg oherwydd nad oes

ganddynt fynediad rhwydd i gyfrifiaduron personol. Ategwyd fod yr adran yn gweithio a'r Swyddog Dysgu a Datblygu i geisio dod o hyd i ffyrdd addas i wella'r ymateb.

Tynnwyd sylw yn ogystal i'r prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd fod yr holl brentisiaethau yn yr adran yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a bod hysbysiadau Cymraeg ar gyfer y cyfleodd hyn bellach i'w gweld ar y teledu.

- Mynegwyd awydd i ddatblygu mwy o derminoleg Cymraeg o fewn yr adran ac i sicrhau defnydd ohonynt yn y gweithlu yn ogystal â chynnal hyfforddiant iaith i'r staff.

- Gobeithir annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg y staff, yn enwedig yn yr ardaloedd ble mae llai o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio megis Meirionnydd. Pwysleisiwyd fod hyn yn flaenoriaeth fel gall staff rheng-flaen roi'r argraff gorau o ddefnydd yr iaith i drigolion Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor i holi cwestiynau-

- Holwyd pa mor gynrychiadol oedd y cyfranogwyr a ymatebodd i'r holiadur dynodiadau iaith. Nododd fod trefniadau i edrych ar yr holiadur i sicrhau ei fod yn syml, a drwy hyn gobeithir y bydd cyfranogiad ehangach.  Holwyd hefyd pa mor debygol oedd o fod unigolion Cymraeg wedi ei lenwi'n Saesneg. Eglurodd nad oedd modd o wirio hyn.

- Gofynnwyd pa mor aml mae pethau'n cael eu cyfieithu'n allanol. Mynegwyd nad oedd angen defnyddio cwmnïau allanol gan eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu mewnol o fewn y Cyngor a nodwyd yr her o gael mwy o ddefnydd o derminoleg Cymraeg gan staff.

- Holwyd beth oedd y drefn arferol pe bai rhaid cyflogi rhywun di-gymraeg. Cadarnhawyd y byddai hyfforddiant addas yn cael ei gynnig. Eglurwyd hefyd fod cefnogaeth a hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r staff presennol sydd ddim yn hyderus efo'u Cymraeg.

**PENDERFYNIAD**
Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

**6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: AMGYCLHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr adran Amgylchedd. Nododd addasiad i'r adroddiad sef bod 67.8% o'r adran wedi llenwi'r holiadur hunanasesiad iaith Gymraeg a bod 93% o'r rhai ymatebodd yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Cyfeiriodd at y pwyntiau canlynol yn yr adroddiad:

- Nodwyd ei bod yn anodd cael unigolion gyda'r arbenigedd cywir i ddod i weithio yn y maes cynllunio a gwarchod y cyhoedd. Eglurodd bod cyrsiau cynhwyso yn cael eu trefnu i gynorthwyo gyda hyn.

- Mynegodd bod y gallu i weithredu'n rhithiol wedi newid systemau gweithiol yr adran a bod nifer o staff wedi gadael yr adran i geisio swyddi mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod gweithio'n rhithiol yn golygu y gall y Cyngor annog unigolion i ddod i weithio gyda nhw. Adnabuwyd bod angen hyfforddi a buddsoddi yn y swyddogion er mwyn eu hannog i aros yn eu swyddi.

- Nodwyd angen i ddatblygu'r maes recriwtio ac i greu a chynnal cyswllt ysgolion a cholegau yn ôl i'r arfer ar ôl cyfnod COVID

- Eglurwyd bod cyfyngiadau ieithyddol wrth greu dogfennau rhwng yr adran a chwmnïau allanol a bod sicrhau nad oes cam camddehongli rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

- Pwysleisiwyd fod llawer o gwmnïau yn gweithredu yn wirfoddol ar argymhellion yr adran i enwi datblygiadau yn Gymraeg er nad oes deddfwriaeth i'w gorfodi

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau pellach -

- Holwyd pam fod nifer wedi gadael yr adran ac os oedd rheswm dros hyn. Gofynnwyd, yn ogystal, am ddiweddariad am y newidiadau yn yr adran. Nodwyd eu bod yn buddsoddi mewn hyfforddi staff yr adran er mwyn eu datblygu ymhellach. Ychwanegodd fod cyfnod hir o sefydlogrwydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn dilyn newid mewn ffordd o weithio dros y pandemig fod hyn wedi rhoi mwy o gyfleon tu hwnt i'r Cyngor i unigolion

- Gofynnwyd a oedd bwriad cael cyswllt gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu ysgolion a cholegau i annog pobl ifanc ymrwymo i'r swyddi sydd ar gael efo Cyngor Gwynedd. Amlygwyd yr angen i ddatblygu'r maes recriwtio, ac yn anffodus fod cynlluniau oedd ganddynt wedi ei dal yn ôl gan y pandemig ond eu bod yn gobeithio ailgychwyn yn fuan. Er hyn, eglurwyd fod llawer o waith wedi ei wneud i hyrwyddo swyddi yn lleol.

- Holwyd a oedd bwriad i ddatblygu terminoleg Cymraeg o fewn yr adran. Eglurwyd fod y derminoleg yn un anodd a'i bod yn ofynnol i'r gwasanaeth gynnig gwahoddiad tendro'n ddwyieithog. Nodwyd yr angen i fod yn ofalus efo'r cytundebau a chontractau ac nad oes camddehongli i'w weld rhwng y ddwy iaith. O ganlyniad i hyn, y cyngor cyfreithiol mae'r adran wedi ei dderbyn yw cyflwyno cytundebau a chontractau mewn un iaith, a bod yr iaith felly'n amrywio o gwmni i gwmni.

- Mynegwyd siom nad oedd Deddf i sicrhau fod enwau gwreiddiol Cymraeg sydd yn cael ei defnyddio yn lleol yn cael eu blaenoriaethu, ond pwysleisiwyd fod yr adran yn annog defnydd o'r Gymraeg gyda chanran uchel o gwmnïau yn derbyn argymhellion yr Uned Iaith.

**PENDERFYNIAD**
Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Cyllid a chyfeiriodd yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Datblygiad yn yr adran dros y blynyddoedd o fod yn bennaf Saesneg o ran arferion gwaith, i fod gyda chanran uchel o staff yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg.

- Nodwyd fod yr adran yn unigryw yn y modd ei mae'n cynhyrchu cyfrifon drwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg, yn annhebyg i unrhyw Gyngor arall.

- Cyfeiriwyd at y staff rheng flaen sy'n cyfathrebu a'r cyhoedd o fewn yr adran a'u bod yn cwrdd â'r gofynion ieithyddol.

- Manteisiwyd ar ddeunydd Cymraeg Clir er mwyn symleiddio'r eirfa a ddefnyddiwyd o fewn gwaith yr adran fel bod pobl gyffredin yn eu deall. Ategodd y Pennaeth bod cynghorau eraill yn efelychu'r gwaith hwn ar gyfer safoni

terminoleg gan fod yr adran wedi gweithio efo Canolfan Bedwyr i sicrhau defnydd o ffurf geiriau cywir.

- Ategwyd bod yr adran wedi arloesi gyda'u defnydd o Zoom ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol er enghraifft i sicrhau bod ansawdd a gweithrediad dwyieithog yng nghyfarfodydd gronfa bensiwn. Ychwanegodd bod egwyddorion Ffordd Gwynedd yn cael eu hallforio drwy hyn.

- Nododd bod y systemau rhithiol wedi amddiffyn y drefn ddwyieithog a bod yr adran wedi lobïo Microsoft drwy ysgrifennu llythyr atynt i fabwysiadu system sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag yn absenoldeb hyn mae Zoom wedi caniatáu hyn ddigwydd yn rhwydd.

- Ategodd Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth mwy o wybodaeth am y systemau gwe iaith a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yn llwyddiannus yn y gorffennol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Diolchwyd am yr adroddiad difyr a holwyd pa mor debygol yw'r ddarpariaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd ar y cyd gyda sefydliadau allanol.

- Nododd aelod ei fod yn synnu nad oes cyfieithu ar Teams gan fod Microsoft yn gwmni byd-eang a holwyd a oes rheswm pam nad yw'n cael ei gynnig.

- Gofynnwyd a oes gan Gyngor Gwynedd le i fynnu bod darpariaeth a chyfleuster cyfieithu fel bod mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfarfodydd.

- Holwyd os daeth unrhyw ateb o'r llythyr a ysgrifennwyd at Microsoft.

- Croesawyd y trafodaethau efo'r adrannau, gan ei fod yn gyfle da iddynt hunan-arfarnu am sefyllfa'r iaith Gymraeg wrth lunio eu hadroddiadau. Ategodd bod heriau adrannol yn cael eu hamlygu wrth iddynt adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Iaith.

- Gofynnwyd a yw'n amser i edrych ar flaenoriaethau'r Pwyllgor iaith ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid:

- Nad oes llawer o Gymraeg o fewn y cyfarfodydd gyda swyddogion ar draws Cymru. Fodd bynnag o fewn cyfarfodydd cyhoeddus mae cyfleuster cyfieithu ar gael bob tro.

- Bod Microsoft wedi canolbwyntio ar gyfieithu mecanyddol a heb rannu eu sianel sain yn Teams yn ddwy i alluogi cyfieithu ar y pryd fel mae Zoom wedi ei wneud. Ategodd bod Microsoft yn y broses o newid hyn.

- Nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod y mater cyfieithu ar y pryd yn cael ei drafod yn yr adroddiad sicrwydd Comisiynydd Y Gymraeg sy'n atodol i'r agenda heddiw. Ategodd bod y Comisiynydd yn pwyso ar Awdurdodau i sicrhau'r ddarpariaeth.

- Atebodd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Microsoft, fodd bynnag gan fod y ddarpariaeth ar y gweill does dim pwrpas i lythyru ar y pwynt yma.

- Ategodd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod llawer o gydweithio wedi bod yn fewnol ac yn rhanbarthol i ddylanwadu ar awdurdodau eraill i gynyddu eu defnydd.

- Yn ychwanegol, nododd bod y gwasanaethau cyfieithu llawer haws i'w drefnu yn rhithiol ac o ganlyniad mae gwaith y tîm cyfieithu wedi cynyddu.
- Cytunodd y byddai edrych ar flaenoriaethau yn helpu llywio cyfeiriad ar gyfer y cyfarfodydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD**
Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 8. CAMU YMLAEN: ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth gan yr Ymgynghorydd Iaith. Nodwyd fod yr adroddiad yn adrodd ar ganfyddiadau'r Comisiynydd o'r arferion ieithyddol yn Genedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn Covid.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 9. PROSIECT GWARCHOD ENWAU LLEOEDD CYNHENID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Prosiect a'r Ymgynghorydd Iaith.

Nodwyd yn ôl yn 2018, fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith, oedd yn amlinellu cyfrifoldebau a phwerau'r Cyngor yn y maes enwi lleoedd. Eglurwyd fod yr adroddiad yn ffrwyth gwaith ymchwil ac wedi ei greu mewn ymateb i bryderon gan aelodau'r Pwyllgor ar y pryd am Seisnigeiddio enwau neu fathu enwau newydd ar nodweddion daearyddol a thai. Eglurwyd o ganlyniad i rwystrau megis Covid nad oedd modd symud y prosiect yn ei flaen nes mis Medi eleni ble penodwyd Swyddog Prosiect i ddechrau ar y gwaith. Bellach, nodwyd fod y cynllun hwn yn un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor, ac o ganlyniad wedi derbyn arian ychwanegol i wthio'r cynllun yn ei blaen.

Mynegwyd nad oedd eglurdeb ar y drefn o newid enwau ac ail enwi tai a strydoedd. Pwysleisiwyd fod hyn yn bennaf oherwydd yr angen i foderneiddio deddfau a pholisïau i sicrhau fod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth ar enwau tai a busnesau.
Eglurwyd fod cyfle gyda'r cynllun hwn i adrannau o fewn y Cyngor gydweithio gyda'i gilydd a bod cyfarfod cychwynnol i sefydlu Grŵp Prosiect wedi ei gynnal. Nodwyd y bydd modd bwrw ymlaen gweithdrefnau pendant ac sydd yn ateb yr angen am eglurdeb yn y maes. Nodwyd y bydd gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion a'r cyhoedd i ennyn diddordeb hirdymor i'r cynllun.

Adnabuwyd fod lle i gydweithio efo Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref i weld camau maent wedi ei wneud yn flaenorol neu beth sydd angen ei wneud yn y cymunedau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach-
- Holwyd pa mor hawdd oedd hi i gysylltu â chyfathrebu efo busnesau a chymdeithasau tai. Nodwyd eu bod yn y broses o ddatblygu ffurflen wybodaeth i fusnesau a chymdeithasau tai fydd yn rhoi gwybodaeth glir o'r broses o enwi tai a busnesau. Mynegwyd nad oedd gan y Cyngor lawer o ddylanwad yn y maes y trydydd sector ond nodwyd awydd i ddatblygu perthynas o fewn y maes a drwy hyn y gallu i ddylanwadu ymhellach.
- Tynnwyd sylw at lwyddiant mae Cyngor Plwyf Llanystumdwy wedi cael i roi

arwyddion enwau ar bontydd a ger afonydd o fewn eu hardal, a gofynnwyd a oes modd datblygu'r cynllun gyda'r adran Amgylchedd. Cytunwyd fod angen trafodaeth gyda'r adran a bod angen parhau gyda chynlluniau o'r math hwn.

- Gofynnwyd pa rôl sydd gan Gynghorwyr i gefnogi'r cynllun hwn, nodwyd y bydd cyfarfodydd cyson yn cael ei gynnal gyda'r Cynghorwyr ac y bydd diweddariadau yn cael ei rannu. Nodwyd y bydd hyn yn gyfle i Gynghorwyr i herio perfformiad y cynllun ynghyd a rhannu eu syniadau hwythau.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:20pm

**CADEIRYDD**